CYFARWYDDYD, DOCUMENT

# Awgrymiadau da ar gyfer gwella eich effeithlonrwydd - Effeithlonrwydd Ynni

Effeithlonrwydd Ynni

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 18 Hydref 2024

**Diweddarwyd diwethaf:** 18 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/awgrymiadau-da-ar-gyfer-gwella-eich-effeithlonrwydd-effeithlonrwydd-ynni** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

Gallwch weithredu nifer o fesurau arbed ynni am gost isel neu hyd yn oed heb gost o gwbl, a gall leihau costau ynni hyd at 20 y cant. Dyma rai awgrymiadau syml a all eich helpu chi i arbed ynni.

- Gallwch gymryd camau syml i leihau eich costau ynni.
  - A yw eich staff yn chwarae eu rhan – a ydyn nhw'n diffodd offer yn y nos a phan na chânt eu defnyddio.
  - A oes synwyryddion symudiadau neu amseryddion wedi cael eu gosod mewn ardaloedd sy'n cael eu defnyddio'n achlysurol.
  - Ydych chi wedi gosod bylbiau golau ynni isel.
  - Ydych chi'n gwresogi mannau na chânt eu defnyddio.
- Gwnewch yn si?r bod y staff yn gwybod sut mae systemau gwresogi ac oeri'n gweithio a'u bod nhw'n gyfarwydd ag unrhyw weithrediadau effeithlonrwydd ynni cynwysedig.
- Trwy leihau tymheredd ystafell 1?C, gallwch leihau eich bil gwresogi cymaint â 10 y cant. Os yw eich lefelau gwresogi wedi'u gosod yn rhy uchel neu eich lefelau oeri'n rhy isel, gallech fod yn defnyddio mwy o ynni nag sy'n angenrheidiol. Dylech osod thermostatau gwres canolog rhwng 18? a 21?C a dylech osod aerdymherwyr i ddod ymlaen pan mae'r tymheredd yn mynd yn uwch na 24 ?C
- Dylech ddefnyddio amseryddion a thermostatau i reoli systemau gwresogi ac oeri, i gynhesu swyddfeydd cyn i staff gyrraedd ac i ddiffodd pan fydd yn cyrraedd y tymheredd dymunol
- Dylech sicrhau bod ffenestri a drysau ar gau pan mae'r systemau gwresogi neu aerdymheru ymlaen. Dylech annog staff i gau bleindiau a llenni i atal cynhesu gan yr haul neu golli gwres mewn ystafelloedd
- Dylech ddiffodd systemau gwresogi neu oeri mewn ystafelloedd gwag. Defnyddiwch y rhain dim ond pan mae pobl yn yr ystafell
- Gall yr ynni a ddefnyddir ar gyfer golau gyfrir am hyd at hanner bil trydan swyddfa. Mae labelu neu roi côd lliw ar switshis yn ffordd wych o hyrwyddo diwylliant 'diffodd' ymhlith gweithwyr. System syml yw: coch = peidiwch â'i ddiffodd, oren = gall staff penodol ei ddiffodd pan na chaiff ei ddefnyddio, a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/awgrymiadau-da-ar-gyfer-gwella-eich-effeithlonrwydd-effeithlonrwydd-ynni** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

gwyrdd = gall unrhyw un ei ddiffodd pan na chaiff ei ddefnyddio

- Gwiriwch gyda'ch darparwr trydan i sicrhau eich bod chi ar y pris cywir. Gall cymharu darlleniadau mesurydd gwirioneddol â darlleniadau ar eich bil (a all fod yn amcangyfrifon) amlygu anghysondeb a gordaliadau
- Mesur defnydd ynni yw'r cam cyntaf i'w reoli. Bydd cyfrifo eich costau sylfaenol ar gyfer tanwydd a thrydan yn eich helpu chi i osod targedau ac amlygu meysydd sydd angen sylw ar unwaith
- Wrth ailwampio, ystyriwch osod ffenestri dwbl neu driphlyg. Gall atal drafftiau ac insiwleiddio gwael mewn waliau, toeon neu bibellau ganiatáu i ynni ddianc. Dylech eu newid neu eu diweddaru, pa fo angen
- Gwnewch yn si?r nad yw ffaniau, pympiau ac offer canolog, fel tyrau oeri, boeleri ac oerwyr, yn gweithredu pan fo adeiladau'n wag, ac eithrio pan fo'r angen
- Gwnewch yn siˆwr fod gan declynnau gyfradd ynni'r UE o A neu uwch
- Defnyddiwch olau naturiol pan fo'n bosibl, cadwch ffenestri'n lân, ac anogwch staff i agor bleindiau yn hytrach na throi goleuadau ymlaen
- Dylech chi lanhau tryledwyr yn rheolaidd. Gall tryledwyr budr leihau allbwn golau i 50 y cant
- Gwnewch yn siˆwr y gellir diffodd golau â llaw ac ystyriwch osod synwyryddion golau dydd neu chanfyddwyr symudiadau i reoli pryd caiff golau ei droi ymlaen a'i ddiffodd
- Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn helpu busnesau i leihau allyriadau carbon. Ewch i'w gwefan at **www.carbontrust.co.uk**

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/awgrymiadau-da-ar-gyfer-gwella-eich-effeithlonrwydd-effeithlonrwydd-ynni** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**